



Cyfarfod Cyffredinol Arbennig Y Bartneriaeth Awyr Agored Cofnodion

25 Medi 2026 – 10:00yb – 10:15yb drwy Teams

Yn bresennol:

Ymddiriedolwyr	Stuart Wallace (Cadeirydd), Paul Airey (Ymddiriedolwr Gweithrediadau a Rheoli Risg), Paul Frost (Ymddiriedolwr Llywodraethu), Katy Woodington (Aelod Cyfetholedig), Leah Watkins (Ymddiriedolwr Adnoddau Dynol), Jo Owen (Ymddiriedolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant).
Tîm staff	Tracey Evans (Prif Weithredwr), Mark Jones (Rheolwr Rhaglen), Mali Quaeck (Cydllynydd Busnes), Elin Humphreys (Rheolwr Cyllid), Gary Donaldson (Swyddog Y Sperrins), Victoria Kelly (Swyddog De-ddwyrain Gogledd Iwerddon), Ailish Roberts (Swyddog Gogledd Cymru), Sioned Johnstone (Swyddog Gorllewin Cymru), Bethan Logan (Swyddog Canolbarth Cymru), Brett Mahoney (Swyddog Gwent), Leila Connolly (Swyddog Canolbarth De Cymru), Molly Campion (Swyddog Arfordir Cumbria).
Aelodau rhanddeiliaid	Mynychodd cyfanswm o 25 o randdeiliaid y cyfarfod, gan gynrychioli pob ardal weithredu.

1. Croeso

Croesawodd SW bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb a'u cyfraniad.

Esboniwyd pwrpas y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, sef ystyried newidiadau a diwygiadau i Erthyglau Cymdeithasu'r sefydliad.

Rhoddwyd copiâu o'r holl adroddiadau a'r dogfennau perthnasol ar gael cyn y cyfarfod ar wefan Y Bartneriaeth Awyr Agored: [CCB & CCA 2026 - The Outdoor Partnership](#)

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr ymddiriedolwyr canlynol: Joan Edwards (Cyllid), Margaret Hollings (Masnachol a Marchnata) a Peter Olivier (Sylwedydd).

Nodwyd hefyd ymddiheuriadau gan y rhanddeiliaid canlynol:

- Edel Trainor
- Robin Thompson
- Nicky Wilson
- Niall Sheridan
- Michelle Thomas
- Caroline Jones
- Jake Cosgrove
- Suzanne Williams
- Fiona Nicholls Mari A Jones
- Sarah McCoubrey
- Megan Parker



3. Materion yn codi

Doedd dim materion i'w godi.

4. Cymeradwyo'r Gwelliannau Arfaethedig i'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu

Cyflwynodd PF y gwelliannau arfaethedig i'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Y Bartneriaeth Awyr Agored.

Esboniodd PF fod y sefydliad wedi dod yn gwmni elusennol yn 2011, a bod yr erthyglau presennol wedi'u hadolygu yn erbyn erthyglau enghreifftiol Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Cadwyd darpariaethau cyfatebol, gyda newidiadau'n cael eu gwneud lle'r oedd angen mwy o eglurder neu well aliniad.

Mae'r prif ddiwygiadau yn cynnwys darpariaethau ar gyfer pleidleisio electronig a datrys anghydfodau, diweddarau darpariaethau cyflogaeth, egluro trefniadau gwrthdaro buddiannau a phenodi dirprwyon, cynyddu'r nifer uchaf o gyfarwyddwyr o wyth i ddeuddeg, a lleihau'r cworwm yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Roedd yr erthyglau diwygiedig wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau sawl mis cyn y cyfarfod, ac erbyn dyddiad y cyfarfod ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau na gwrthwynebiadau. Roedd y newidiadau yn bennaf yn rhai gweinyddol, gyda'r bwriad o wella eglurder, cysondeb ac effeithlonrwydd.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau. Cynigiwyd y diwygiadau gan Paul Airey ac fe'u heiliwyd gan Ray Ponting.

Penderfyniad: Cymeradwywyd y gwelliannau arfaethedig i'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu yn unfrydol.

5. Unrhyw fater arall

Gan na chodwyd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig i ben am 10:15yb.